Gwanwyn 2024

# Cylchlythyr Cymunedol

Prosiect Darpariaeth Effaith Weledol Eryri



## Diweddariad Prosiect



**Steve Ellison**

Uwch Reolwr Prosiect, National Grid

**Helo, a chroeso i'n cylchlythyr diweddaraf. Dros y misoedd diwethaf, mae prosiect Darpariaeth Effaith Weledol Eryri (Eryri VIP) wedi gweld datblygiadau cyffrous yn cael eu cyflawni ar y safle, ac oddi arno.**

Ers ein diweddariad diwethaf, rydym wedi symud ymlaen o'r cam cynllunio a pharatoi ac wedi dechrau ar gamau cyntaf y gwaith adeiladu.

Ar y safle ym Minffordd, rydym wedi cwblhau'r gwaith o greu'r morlynnoedd a fydd yn prosesu'r dŵr a ddefnyddir ar gyfer y gwaith twnelu, ac rydym hefyd wedi dechrau adeiladu gweithdai a strwythurau gweithfeydd trin. Bydd y rhain yn cefnogi'r Peiriant Twnelu ar ei daith o dan y ddaear. Yn Llandecwyn, rydym wrthi'n paratoi'r safle ar gyfer creu'r siafft ddyfnach yn rhan ddwyreiniol y safle, lle bydd y Peiriant Twnelu yn dod i'r wyneb ar ddiwedd ei daith.

Yn ogystal â'r gwaith adeiladu, rydym hefyd wedi bod yn brysur yn y gymuned yn cynnal gweithdai, teithiau beicio elusennol, a mwy.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth a welwch yma o ddiddordeb i chi. Cysylltwch â ni i roi gwybod a oes rhywbeth yr hoffech i ni roi rhagor o sylw iddo yn y dyfodol.

## Mae'r Peiriant Twnelu ar ei ffordd

Mae'r gwaith paratoi ar ei anterth wrth i ni ddisgwyl i'n Peiriant Twnelu newydd gyrraedd y safle. Mae disgwyl y bydd yn cyrraedd yn ystod Gwanwyn / Haf 2024.

Mae'r Peiriant Twnelu yn ddarn arbenigol iawn o offer sydd wedi cael ei adeiladu'n bwrpasol i greu'r twnnel o dan Aber Afon Dwyryd, a fydd yn disodli'r peilonau a'r llinell uwchben. Ar ôl cwblhau'r gwaith, hwn fydd un o dwneli hiraf Cymru!

Mae rhagor o wybodaeth am ein Peiriant Twnelu i'w gweld ar dudalen 2…



Aelodau o dîm Darpariaeth Effaith Weledol Eryri gyda'r Peiriant Twnelu yn yr Almaen

## Cysylltwch â ni

**0800 019 1898**

**visualimpact@nationalgrid.com**

**nationalgrid.com/eryrivip**

nationalgrid

# Dysgu am dyllu twnnel ddim yn 'boring'

**Yn hydref 2023, bu disgyblion brwdfrydig Cyfnod Allweddol 2 o'r saith ysgol sydd agosaf i safle'r prosiect yn cymryd rhan mewn gweithdai STEM addysgol a hwyliog i ddathlu'r wyddoniaeth y tu ôl i'r gwaith o greu twneli.**

Bu tîm National Grid yn gweithio'n agos gyda Sbarduno, arbenigwr gweithdai addysg lleol, a oedd yn gyfrifol am gynllunio gweithdai diddorol, addysgiadol a oedd yn cysylltu gwybodaeth wyddonol ehangach â gwaith y Peiriant Twnelu. Rhoddwyd cotiau labordy a sbectolau diogelwch i'r disgyblion, er mwyn troi'r ystafell ddosbarth yn labordy a'r plant yn wyddonwyr.

Bu'r gweithgareddau rhyngweithiol yn helpu'r disgyblion i adnabod solidau, hylifau a nwyon, ac i archwilio priodweddau deunyddiau gwahanol i'w helpu i ddeall rôl y Peiriant Twnelu.

Dywedodd Awen Ashworth o Sbarduno: "Roedd yn wych cyflwyno'r gweithdai hyn i ddisgyblion ifanc disglair a oedd yn awyddus i ddysgu ac yn barod i gymryd rhan ym mhob tasg."

Ychwanegodd Steve Ellison: "Roedd yn braf clywed faint roedd y plant eisoes yn ei wybod am ynni, ac am yr angen am ddyfodol glân a gwyrdd. Mae'r dyfodol mewn dwylo gwych, yng ngogledd Cymru o leiaf."





Gweithdai STEM a gynhaliwyd gan Sbarduno

## Buddugoliaeth i Buddug

**Yn unol â'r traddodiad twnelu, roedd angen enw ar Beiriant Twnelu Eryri – enw benywaidd yn draddodiadol.**

Fel rhan o'r gweithdai addysgol, gofynnwyd i'r disgyblion gyflwyno ceisiadau a oedd wedi'u hysbrydoli gan ffigur arwyddocaol yn niwylliant, chwedloniaeth, neu STEM Cymru. Cafodd yr enw buddugol ei ddewis gan banel o aelodau tîm y prosiect o National Grid a Hochtief UK, yn ogystal â'r pedwar cynghorydd sir sydd fwyaf lleol i safle prosiect Darpariaeth Effaith Weledol Eryri.



Scarlett Katie Lebeau Harvey – Enillydd cystadleuaeth enwi'r Peiriant Twnelu

**Buddug** oedd yr enw buddugol, a gynigiwyd gan Scarlett Katie Lebeau Harvey, 11 oed, o Ysgol Eifion Wyn, Porthmadog. Roedd y beirniaid yn hoff iawn o ymgais Scarlett, a oedd yn cynnwys ei hesboniad, "Rydw i wedi dewis yr enw yma oherwydd bod Buddug yn golygu buddugoliaeth a deallus."




Buddug, y Peiriant Twnelu yn yr Almaen

Mae'r gwaith o gynnal a chadw a defnyddio'r Peiriant Twnelu yn gofyn am sgiliau peirianneg arbenigol iawn, ac rydym am i'n cenhedlaeth nesaf o ddarpar beirianwyr a gwyddonwyr fod yn rhan o'r daith hon gyda ni.

Dywedodd Steve Ellison: "Cawsom ymateb gwych i'n gweithdai STEM rhyngweithiol ac i'r gystadleuaeth i enwi'r Peiriant Twnelu. Roedden ni wedi rhyfeddu faint o ymchwil a gwreiddioldeb a ddangoswyd gan y disgyblion, a hoffem longyfarch Scarlett ar ddewis yr enw buddugol."

Fel rhan o'i gwobr, bydd Scarlett a'i rhieni yn cael eu gwahodd i weld y Peiriant Twnelu wrth iddo gyrraedd y safle, gyda'r enw 'Buddug' wedi'i beintio mewn llythrennau mawr ar ochr y peiriant, a bydd y teulu'n cael cyfle i dynnu eu llun wrth ei ymyl.

# Beicio er budd banciau bwyd

**Dros dri diwrnod ym mis Medi y llynedd, fe wnaeth naw peiriannydd dewr o dîm National Grid gwblhau taith feicio 200 milltir, gan deithio ar hyd a lled Cymru ac esgyn 14,000 o droedfeddi.**

Yn ystod pob cam o'u taith, bu'r tîm yn stopio mewn banciau bwyd lleol, gan gynnwys y rhai a reolir gan Ymddiriedolaeth Trussell, i gyflwyno cyfraniadau gan ganolfannau rhoi bwyd a sefydlwyd gan National Grid mewn nifer o'u safleoedd yng Nghymru.

Ym Mhenrhyndeudraeth, fe wnaeth y tîm gyfrannu amrywiaeth o fwyd a brynwyd yn Siop Dewi, yn ogystal ag eitemau ychwanegol a roddwyd yn garedig gan Dewi Lewis, perchennog y Siop. Ynghyd â rhoddion eraill, dosbarthwyd y rhain gan y Parchedig Barnes o Eglwys y Drindod i'r banc bwyd lleol sy'n cael ei redeg gan Y Dref Werdd.


Steve Ellison a thîm National Grid gyda rhoddion i fanciau bwyd a brynwyd yn Siop Dewi

## Pryd gyda Probus

**Cafodd aelodau Clwb Probus Porthmadog a'r Cylch, sy'n dod â gweithwyr proffesiynol sydd wedi ymddeol neu led-ymddeol at ei gilydd, yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau prosiect Darpariaeth Effaith Weledol Eryri yn ystod trafodaeth yr hydref diwethaf.**

Ar ôl ymuno ag aelodau'r Clwb am ginio, bu Jordan Brindle, un o Brif Reolwyr y Prosiect, yn trafod pob agwedd ar y prosiect; gan gynnwys ochr hynod dechnegol y gwaith, a'r pethau mwy anarferol.

Dywedodd Jordan: "Mae lledaenu'r neges am y prosiect tirwedd trawsnewidiol hwn yn bwysig iawn i'n tîm. Roedd yn wych cwrdd â grŵp o bobl wybodus, sydd â diddordeb yn y math hwn o beth. Byddem yn awyddus i gynnal trafodaeth debyg gyda sefydliadau lleol eraill a allai fod â diddordeb."

# Mynd i ysbryd y Nadolig

**Ar drothwy tymor yr ŵyl, fe wnaeth prosiect Darpariaeth Effaith Weledol Eryri noddi'r ffair Nadolig a dathliadau cynnau'r goleuadau ym Mhenrhyndeudraeth ddiwedd mis Tachwedd.**

Trefnwyd y dathliad llawen a lliwgar gan Gyfeillion Cefn Coch ochr yn ochr â Chyngor Tref Penrhyndeudraeth, ac roedd Steve Ellison, Uwch Reolwr Prosiect Darpariaeth Effaith Weledol Eryri, hefyd yn bresennol.

Aeth Steve gyda'r Cynghorydd Meryl Roberts i groesawu ymwelwyr lleol i sgwâr y dref i fwynhau perfformiad gan gôr yr ysgol cyn i'r goleuadau Nadolig gael eu rhoi ymlaen. Yna aeth yr ymwelwyr i'r Neuadd Goffa ar gyfer y ffair Nadolig, a oedd yn cynnwys rafflau, gemau a stondinau crefft.

Hefyd, cafodd y gwesteion ifanc a fu'n ymweld â Groto Siôn Corn focsys siocled, a gyfranwyd gan brosiect Darpariaeth Effaith Weledol Eryri.


Steve Ellison gyda'r Cyng Meryl Roberts, Leri Ann Roberts a ffrindiau ym Mhenrhyndeudraeth


Steve Ellison yn ymweld â Groto Siôn Corn

# Cadw mewn cysylltiad

**Cafodd grwpiau cymunedol, gan gynnwys Cynghorau Cymuned, ysgolion lleol, Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru a Chymdeithas Eryri, eu cynrychioli ym mhedwerydd cyfarfod y Grŵp Cyswllt Cymunedol ym mis Tachwedd.**



Pedwerydd cyfarfod Grŵp Cyswllt Cymunedol, Prosiect Darpariaeth Effaith Weledol Eryri

Mae'r cyfarfodydd yn gyfle i ni rannu'r wybodaeth ddiweddaraf â chynrychiolwyr lleol am ddatblygiadau'r prosiect ac i'r gymuned roi adborth i ni.

Cynhaliwyd y cyfarfod yn y Neuadd Goffa ym Mhenrhyndeudraeth, lle bu trafodaeth ynglŷn â chynnydd y prosiect, gan gynnwys y gwaith o sefydlu ein compowndiau adeiladu, a'r gwaith paratoi ar gyfer dechrau creu'r twnnel. Yr aelodau oedd y rhai cyntaf i glywed yr enw buddugol ar gyfer y Peiriant Twnelu.

# Grant i fyd natur

**Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yw'r sefydliad diweddaraf i gyflwyno cais llwyddiannus am grant drwy Raglen Grantiau Cymunedol National Grid.**

Mae'r Rhaglen Grantiau Cymunedol wedi'i hanelu at elusennau a sefydliadau lleol mewn ardaloedd lle mae gwaith National Grid yn effeithio ar bobl leol drwy ein gweithgareddau ar safleoedd – gan gefnogi prosiectau a fydd o fudd i gymunedau yn yr ardal leol.

Mae Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru wedi cael cyfanswm o £19,964, a fydd yn cael ei ddefnyddio i greu ardal eistedd ac ystafell ddosbarth yng ngwarchodfa natur Gwaith Powdwr ym Mhenrhyndeudraeth ar gyfer grwpiau addysg amgylcheddol ac ysgolion lleol.

Bydd yr ardal eistedd yn gwneud ardaloedd naturiol hardd Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yn fwy hygyrch i'r rhai sy'n methu symud cystal, yn ogystal â darparu golygfa ddirwystr o'r aber hardd a lle gwych i wylio'r peilonau'n cael eu tynnu i lawr.

# Diwrnod ym mywyd – Rhys Davies



**Mae Rhys Davies, aelod allweddol o dîm Darpariaeth Effaith Weledol Eryri ar ran Hochtief UK, ein prif gontractwr, yn beiriannydd sifil cymwysedig ac yn frodor o Flaenau Ffestiniog. Fel rhywun sy'n frwd dros ddatrys problemau, ac sydd â gyrfa liwgar a ddechreuodd yn 16 oed, mae Rhys yn ymuno â'n prosiect gyda chyfoeth o brofiad ymarferol yn y maes.**

"Ers pan yn ifanc, rydw i bob amser wedi mwynhau gwthio fy ffiniau a mynd i'r afael â heriau newydd. Yn ystod fy ngyrfa, rydw i wedi gweithio ar brosiectau adeiladu a seilwaith mawr; gan gynnwys HS2, gwaith twnelu a'r rhwydwaith ffyrdd strategol, yn ogystal ag arwain prosiect a gafodd ddwy wobr ICE am arloesi a defnyddio technoleg newydd.

"Roedd ymuno â thîm Darpariaeth Effaith Weledol Eryri ar brosiect cyffrous ac arloesol mor agos at fy nghartref yn swydd ddelfrydol i mi."

## Rôl Rhys ym mhrosiect Darpariaeth Effaith Weledol Eryri

"Yn safle Garth ym Minffordd, rwy'n gyfrifol am oruchwylio'r gwaith o reoli ein safle a'n rhaglen yn ddiogel ac yn effeithlon. Mae hyn yn cynnwys gwaith cynllunio, trefnu rhaglenni, cydlynu trwyddedau a gwaith dros dro, goruchwylio gweithgarwch ar y safle, a sicrhau bod morâl a chymhelliant ein tîm yn uchel bob amser.

"Yn rhyfedd iawn, y pethau rwy'n eu mwynhau fwyaf am fy swydd yw'r natur anrhagweladwy a'r amgylchedd prysur iawn, oherwydd ni waeth pa mor fanwl rydych chi'n cynllunio pethau – rhywbeth rydym yn ymfalchïo ynddo – mae bywyd bob amser yn dueddol o daflu rhywbeth annisgwyl tuag atoch.

"Mae pob diwrnod yn dod â her newydd. Rwy'n meddwl bod peirianneg yn debyg i yrru ar y ffordd: weithiau byddwch yn mynd dros dwll yn y ffordd sy'n drysu eich llwybr, ond rydych chi'n llwyddo i ddod yn ôl ar y trywydd iawn a chyrraedd diwedd eich taith. Dyna sy'n gwneud peiriannydd gwerth ei halen – y gallu i ddatrys problemau pan fyddwch chi'n wynebu heriau yn ystod prosiect."

## Fy nghyngor i ddarpar beirianwyr

"Byddwn i'n annog unrhyw un sy'n chwilio am swydd fel peiriannydd i gadw meddwl agored bob amser. Rydych chi'n dysgu rhywbeth newydd drwy'r amser, felly gwnewch y mwyaf o'r wybodaeth a gewch gan y bobl o'ch cwmpas. Ymfalchïwch yn yr hyn rydych chi'n ei wneud, a dangoswch agwedd gadarnhaol bob dydd."

## Diddordebau

"Pan nad ydw i'n gwisgo fy het galed, mae'n bosibl y dowch o hyd i mi yn y gampfa, yn treulio amser gyda'r teulu neu'n gwneud rhywfaint o waith DIY."